**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Rhagfyr 21ain 2015 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley (cadeirydd), Margaret Bowe, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Colin Hughes Colin L Hughes, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood, Catherine Jones, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Brian Davies

**Arsylwi:** Y Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Aeth y cadeirydd ymlaen i ddweud mai'r cyfarfod yma oedd un olaf i Marian Rees fel cyfieithydd a dymunodd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.

**136. Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**137. Datganiad Diddordeb Personol:** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

**138. Derbyniwyd a chymeradwywyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Dachwedd 23ain 2015 ar ôl gwelliannau fel a ganlyn:** (1) Cofnod 126 drwy ychwanegu "ar eu hymweliad a Men's Shed Dinbych" a (2) Cofnod 128(1) drwy newid "Myddleton" i ddarllen "Myddelton"**.**

**139. Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**140. Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd a nodwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer. Dywedodd y Maer fod yr adroddiad tan ddiwedd y flwyddyn. Un digwyddiad amlwg oedd yr un a fynychodd gyda'r Cyng Gaynor Wood a Roy Tickle sef Gwasanaeth Carolau Plas Brondyffryn - roedd y gwasanaeth yn un rhyfeddol a syfrdanol. Aeth y Maer ymlaen i ddweud, oherwydd costau yn codi a chefnogaeth yn lleihau na fyddai'n cynnal Dawns Elusennol. Er hynny, cynhelir Cyngerdd Elusennol yn Neuadd y Dref nos Sadwrn Ionawr 30ain 2016 gyda Chôr Godre'r Aran.

**141. Llythyrau a Hysbysiadau:** 1. Cytunwyd i nodi naw eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Cyfeiriwyd yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth RainbowBiz Ltd at bwyllgor amgylchedd a chyllid fel cais am gymorthdaliadau.
(2) Llywodraeth Cymru - Diwrnod partneriaeth Cymru yn Cofio 1914 - 1918 - 28.1.15 yn Aberystwyth - Y Cyng Gaynor Morgan Res yn mynychu. Costau teithio i'w talu gan y cyngor. Aelodau o grŵp coffau y Rhyfel Byd Cyntaf hefyd i'w gwahodd i fynychu gyda'r Cyng Gaynor Morgan Rees.
(3) Ann Jones AC ynglŷn â chostau parcio yn Ninbych. Dywedwyd fod costau parcio llai yn Rhuthun. Roedd yna syniad fod Cyngor Tref Rhuthun yn cymorthdalu'r parcio - roedd angen eglurhad. Dywedwyd fod CSDd ar fin adolygu costau parcio ceir. Cytunwyd i ohirio'r mater tan roedd yr adolygiad wedi cymryd lle.
(4) E-bost oddi wrth y Cyng Mark Young ynglŷn â maes parcio Stryd y Dyffryn. Ymhelaethodd y Cyng Young drwy ddweud fod pedwar ymwelydd a'r dref wedi cael tocynnau am barcio gan y gwardeiniaid traffig am beidio â pharcio o fewn y mannau parcio. Roedd yn glir nad oedd y mannau parcio wedi eu marcio yn iawn - roedd angen i GSDd fod yn fwy o blaid busnes - roedd hyn yn gadael blas drwg - dylai synnwyr cyffredin fodoli. Dywedodd y Cyng Bartley fod trafodaeth ar y mater yma wedi cymryd lle yng nghyfarfod MAGS yn gynharach yn y dydd a gofynnwyd i adran priffyrdd ymchwilio.

Awgrymwyd a chytunwyd gyrru llythyr i GSDd yn gofyn am i orfodaeth yn y maes parcio gael ei ymlacio tan fydd y gwelliannau wedi eu cario allan. Awgrymodd y Cyng Colin Hughes fod y llythyr yn cael ei yrru i Arweinydd y Cyngor - cytunwyd a hyn.

(5) Digwyddiad Ymgysylltu Llywodraeth Cymru ar Ddrafft Bil Llywodraeth Leol (Cymru) - Llandudno 4.2.16. Y Cyng Roy Tickle, Raymond Bartley, Colin Hughes a Gaynor Wood i fynychu.

**142.** **Cynllunio**: 1. Nid oedd unrhyw faterion cynllunio.

**143.** **Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor.** (1) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Ragfyr 14eg 2015.
(2) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ragfyr 15fed 2015.

**144.** **Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor:** Nid oedd unrhyw gofnod / adroddiad.

**145.** **Adroddiadau**: (1) Grŵp Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(2) Rheolaeth Neuadd y Dref. Cyfeiriodd clerc y dref at gofnodion a dderbyniwyd ynglŷn â chyfarfod diweddar - nodwyd y cofnodion. Aeth y cyfarfod ymlaen i drafod yr adroddiad blynyddol a dderbyniwyd. Cadarnhaodd y Cyng Medwyn Williams fod y trefniadau yn gweithio'n dda a **Chynigodd fod y trefniant yn parhau a'r cyngor yn parhau i gyfrannu £37,000 yn y flwyddyn ariannol 2016 / 2017. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Gaynor Morgan Rees.** Datganodd y Cyng Gaynor Wood ddiddored ac ni phleidleisiodd. Datganodd y Cyng Colin Hughes a Raymond Bartley eu diddordeb fel cynghorwyr sir ac ni phleidleisiodd y ddau. **Cariwyd y cynnig yn unfrydol.** Cyfeiriodd y Cyng Medwyn Williams at y drws diogelwch oedd i'w osod ac roedd yn rhywbeth i edrych ymlaen ato. Dywedodd y Cyng Raymond Bartley fod nifer o welliannau wedi cymryd lle yn dilyn cyfraniad ariannol y cyngor tref.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**146.** **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Dywedodd y Cyng. Colin Hughes: (1) Rhywfaint o waith i gymryd lle ar furiau terfyn hen Ysbyty Gogledd Cymru ond roedd cwestiwn ynglŷn ag ariannu gan fod yr adeilad mewn perchnogaeth breifat. (2) Wedi edrych os oedd y ceuffosydd llifogydd yn gweithio. (3) Roedd angen mynd ar ôl yr archwiliad diogelwch ym Mhwll y Grawys.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Raymond Bartley: (1) Gwrychoedd o gwmpas cyn Ysbyty Gogledd Cymru angen sylw. (2) Toiledau'r Parc Isaf i agor ym mis Ionawr 2016.
(3) Amddiffynfeydd llifogydd yn y Brwcws i weld yn gweithio. (4) Ymgynghoriad brîff cynllunio Safleoedd y Brwcws yn dod i ben - sylwadau'n cael eu coladu - cyfarfod gyda'r trigolion dechrau Ionawr 2016 - o flaen y pwyllgor cynllunio ym mis Chwefror. Pawb i gael copi o'r agenda a'r casgliadau. (5) Ffordd y Graig o Fferm Plas Clough i Stâd Ddiwydiannol Colomendy i'w hail-wynebu.

2. Ar gais y cadeirydd Cafwyd adroddiad gan y Cyng Gwyneth Kensler: Cynllun ail-wynebu ar gyfer y Flwyddyn Newydd. (2) Archwiliad Gwagleoedd Agored i gymryd lle i ganfod os oedd gan Ddinbych ddigon. (3) Hen Orsaf yr Heddlu wedi ei werthu. (4) Phil Ebbrell i gyfarfod a Tom Smith ynglŷn â chynlluniau ar gyfer Gwasg Gee. (5) Cwynion ynglŷn â sbwriel o amgylch adeilad cyn Institiwt yr Eglwys. (6) Stryd Dŵr i'w ail-wynebu yn 2016. (7) Cylchfan Pwll y Grawys yn symud ymlaen yn araf.
Ymatebodd y tri chynghorydd sir i gwestiynau ar (1) furiau terfyn Ysbyty Gogledd Cymru a'r safle dan berchnogaeth dau gwmni alltraeth. (2) Caniatawyd caniatâd i GSDd i brynu safle

Ysbyty Gogledd Cymru dan bryniant gorfodol a phan ddigwyddith hyn bydd y safle yn cael ei drosglwyddo i Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ysbyty Gogledd Cymru ac i'r ymddiriedolaeth farchnata a datblygu'r safle. (3) Dyfodol safle ailgylchu Dinbych - ni wnaed penderfyniad hyd yn hyn. Roedd y swyddogion yn ymwybodol o sylwadau'r cynghorwyr oedd yn gwrthwynebu cau'r safle. Roedd yn bwysig fod y cyfleuster yn parhau, er hynny fel nag y mae ar hyn o bryd. Roedd Prif Weithredwr Sir Ddinbych wedi cadarnhau na fydd mwy o doriadau.

**147. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Ernest Martin - cloi ac agor Gardd Dr E P<br>(Rhif siec 005780) | - | £60.00 |
| (2) | CSDd - 3ydd cyfraniad Neuadd y Dref<br>(Rhif siec 005781) | - | £9,250.00 |
| (3) | Viking Direct - offer swyddfa<br>(Rhif siec 005782) | - | 51.25 |
| (4) | Marian Ll Rees - gwasanaeth cyfieithu 23.11.15<br>(Rhif siec 005783) | - | £102.00 |

Cyfanswm taliadau: £9,463.25

2. Materion ariannol eraill: (1) Taliad cyfrifon rhwng Rhagfyr 22ain a'r 18fed o Ionawr 2016. Cytunwyd i roddi caniatâd i glerc y dref i dalu unrhyw gyfrifon a dderbynnir yn ystod y cyfnod yma ac i adroddiad gael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod ar Ionawr 18fed.
(2) Nodwyd derbyn £3,065.78 sef ad-daliad TAW oddi wrth HMRC.

**148. Apwyntio aelod ar Bwyllgor Rheolaeth Neuadd y Dref.** Dywedodd clerc y dref fod y Cyng Rob Parkes wedi tynnu'n ôl o'r pwyllgor. Gwirfoddolodd y Cyng Philip Stevens ac fe'i hapwyntiwyd. Y Cyng Brian Davies i barhau fel eilydd.

**149. Sedd Wag y Cyngor - Ward Uchaf.** Dywedodd clerc y dref fod cais wedi ei dderbyn gan GSDd am etholiad. Cyhoeddwyd hysbysiad am etholiad gydag Ionawr 8fed fel diwrnod cau ar gyfer enwebiadau. Galwyd yr etholiad ar gyfer Chwefror 4ydd 2016. Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth y Swyddog Gwasanaethau Etholiadol yn gosod allan y gofynion a'r costau rhagamcanu i'r cyngor tref a chyfeiriodd yn benodol at baragraff pedwar o'r e-bost ynglŷn â chardiau pleidleisio ac os oedd y cyngor tref yn dymuno i gardiau pleidleisio gael eu dyroddi os bydd cystadlu am y sedd yn yr etholiad. Y costau rhagamcanu ar gyfer etholiad cystadleuol oedd £2,887.79 a chostau etholiad heb ei chystadlu yn £154.58. Cytunwyd yn unfrydol i ddyroddi cardiau pleidleisio.

**150. Sedd Wag y Cyngor - Ward Isaf.** Dywedodd clerc y dref nad oedd CSDd wedi derbyn cais i lenwi'r sedd wag drwy etholiad. Bydd angen nawr i'r cyngor lenwi'r sedd wag drwy gyfethol. Roedd clerc y dref wedi trafod y mater gyda'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol. Roedd y sefyllfa yn un cymhleth oherwydd y gorgyffyrddiad a'r etholiad yn cymryd lle yn y Ward Uchaf. Y cyngor a dderbyniwyd oedd mai efallai y dylai'r cyngor oedi cyhoeddi'r hysbyseb cyhoeddus yn hysbysebu'r sedd wag tan ar ôl dyddiad cau derbyn enwebiadau ar gyfer y Ward Uchaf ar Ionawr 8fed. Os bydd cystadlu am y sedd yn yr etholiad, y cyngor a gynigwyd oedd i'r hysbyseb ar gyfer y sedd wag gael ei gyhoeddi ar ôl y pôl ar y 4ydd o Chwefror 2016. Dywedodd y Cyng Colin Hughes y dylid dilyn y cyngor a dderbyniwyd oddi wrth y swyddog etholiadol i'r llythyren. Roedd yn hanfodol na ddylai'r cyngor tref fod yn ymglymedig a darpar ymgeiswyr. Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn a glynu wrth y cyngor a dderbyniwyd.

**151. Ad-drefnu / moderneiddio'r cyngor tref.** Adolygwyd y cyfnod arbrofol dros y tri mis ychwanegol. Gwahoddodd y cadeirydd sylwadau'r aelodau. Dywedodd nifer o aelodau eu bod yn hapus a'r strwythur presennol. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i fabwysiadu a pharhau**

**a'r strwythur presennol.** Dywedodd clerc y dref fod y trafferthion gweinyddol wedi eu goresgyn.
Dywedodd y Cyng Medwyn Williams efallai y dylai'r gweithgor moderneiddio adolygu o fewn y deuddeg mis materion eraill oedd yn gynwysedig o fewn yr adroddiad gwreiddiol - derbyniwyd hyn hefyd.

**152. Dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd gweddill y Flwyddyn Fwrdeistrefol.** Yn dilyn ymlaen o'r Penderfyniad a wnaed yng nghofnod 151 uchod, cytunwyd i Bwyllgor Amgylchedd a Chyllid barhau i gyfarfod ar y trydydd dydd Llun yn y mis am 7 o'r gloch gyda'r Pwyllgor Cynllunio yn parhau i gyfarfod ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis a 6.30 o'r gloch a'r cyngor llawn ar y pedwerydd ddydd Llun yn y mis at 7 o'r gloch. Clerc y Dref y baratoi calendr ar gyfer gweddill y flwyddyn fwrdeistrefol bresennol. Oherwydd yr uchod cytunwyd i ddod a dyddiad y cyngor arbennig i drafod cyllideb y cyngor ymlaen o Ionawr 18fed 2016 i Ionawr 11eg 2016.

**153. Darlithoedd Treftadaeth Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at y rhaglen. Cytunwyd ar y cadeirio ar gyfer pob un o'r darlithoedd.

**154. Mesur Drafft Llywodraeth Leol (Cymru).** Cyfeiriodd clerc y dref at yr wybodaeth a ddosbarthwyd. Roedd y mesur drafft yn ymestyn i 110 o dudalennau gyda'r drafft memoranda esboniadol yn ymestyn i 167 o dudalennau. Chwefror 15fed 2016 oedd y dyddiad cau ar gyfer ymatebion. Dywedodd clerc y dref fod ei gydweithiwr yn Llandudno wedi paratoi crynodeb drafft oedd wedi ei ddosbarthu i glercod mewn aelodaeth o gangen Clwyd o SLCC. Cytunwyd i gyfeirio'r ddogfen at y grŵp archwilio dogfennau ac i glerc y dref ddosbarthu'r crynodeb drafft a dderbyniodd i'r holl aelodau

Dymunodd y cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd lewyrchus i bawb.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.40 o'r gloch.

Arwyddwyd:......................................................... (cadeirydd)

Dyddiad:.........................